# 4. DYDD MERCHER – DYDD YR AROS

**Darllen:** Marc 26: 3-11

Yn ôl yr amseru traddodiadol, arhosodd Iesu ym Methania ar y Dydd Mercher. Amser cythryblus oedd tridiau cyntaf yr wythnos yn Jerwsalem ac Iesu yng nghanol y cythrwfl. Ar y Dydd Mercher, aeth bywyd dinas Jerwsalem ymlaen yn ei ffordd arferol mewn wythnos o u'yl, ond dan y prysurdeb, caed distawrwydd anesmwyth yn rhagargoeli rhyw ddrwg. Yr oedd yna ruthro dirgel o gornel tywyll i gornel tywyll yn y ddinas wrth i rai gynllwynio a bradfwriadu. Roedd cymylau duon yn crynhoi a storm enbyd ar y ffordd. Arhosodd Iesu ym Methania trwy gydol y dydd, yn gorffwys ymhlith ffrindiau i baratoi ei hun ar gyfer y prawf mawr a oedd yn ei wynebu. Disgrifia Mathew, Marc ac Ioan wraig yn dod ato a'i eneinio. Dyma'r eildro i'r efengylau adrodd stori am eneinio Iesu.

Gweler y cyntaf yn Luc 7: 36-50. Lleolwyd y digwyddiad cyntaf mewn gwledd yn nhw Simon y Pharisead yng Nghapernaum. Roedd yn arferiad caniatáu i bobl eraill o'r dref ddod i mewn i wylio'r wledd a gwrando ar sgwrs y gwahoddedigion. Eisteddodd Iesu yn eu plith y tro hwn. *"A dyma wraig o'r dref oedd yn bechadures… dechreuodd wlychu ei draed â'i dagrau a'u sychu â'i gwallt ac yr oedd yn cusanu ei draed ac yn eu hiro a'r ennaint."* Gair i ddisgrifio putain gafodd ei gyfieithi yn '*bechadurus*' yma ac ystyr y gair 'Magdalen' yw '*putain gadwedig'*. Cafodd hon ei harwain o 'farwolaeth byw' i fywyd newydd gan Iesu. Merch ydoedd o gymeriad llachar ac emosiynol a dyna'r ffordd y mynegodd ei diolchgarwch i'w Meddyg Mawr.

Y mae yna le i gredu, yn ôl rhai awdurdodau, bod Simon yn briod â Martha, a Mair yn chwaer-yng-nghyfraith iddo. Nid rhyfedd felly iddo ei hadnabod a'i chondemnio am y niwed a wnaeth ei bywyd drwg hi i'w wraig Martha, yn ogystal ag i enw da a pharchus Simon ei hun. Gellir disgwyl iddo feirniadu Iesu'n llym am iddo ganiatáu iddi gyffwrdd ag ef. Wrth iddo ymateb i feirniadaeth y Pharisead, rhestrodd Iesu'r pethau na wnaeth Simon wrth iddo ei groesawu i'w dŷ ac i'w fwrdd, defodau y disgwylid iddo eu cyflawni yn un â chwrteisi'r cyfnod: heb olchi ei draed, heb roi cusan o groeso iddo, heb eneinio ei ben ag olew. Anodd dweud beth yn hollol oedd pwrpas Simon wrth gael y Rabi i'w dŷ, ar wahân i ddefnyddio'r cyfle i ymosod arno, gweithred dyn cul, anhyblyg,

hunangyfiawn. Er ei fod yn grefyddwr cryf a chadarn, yr oedd y peth canolog ac angenrheidiol yn absennol o'i grefydd ac o'i fywyd, sef gwir gariad at Dduw a chariad at gymydog. Daeth y bechadures hon i'r ystafell mewn edifeirwch a chariad yn arllwys o'i chalon. Beirniadaeth oedd gan Iesu o'r crefyddwyr selog a oedd yno wrth groesawu gweithred Mair: "*Y mae dy bechodau wedi eu maddau… Y mae dy ffydd wedi dy achub di; dos mewn tangnefedd.*"

Lleolwyd yr ail ddigwyddiad ym Methania. Arfer Iesu, wrth ymweld â Jerwsalem, oedd lletya yno fel gwestai teulu annwyl Martha, Mair a Lasarus. Y tro hwn, enwodd Ioan, Lasarus, fel un a oedd yn bresennol gan nodi bod Martha yn gweini ar y cwmni, ond heb sôn o gwbl am bresenoldeb Mair, peth rhyfedd o ystyried pa mor bwysig oedd yr Athro iddi. Yn ôl Marc, yr oedd Iesu 'wrth y bwrdd yn nhw Simon y gwahanglwyfus', ffaith sy'n awgrymu fod yna berthynas o ryw fath rhwng y teulu hwn a Simon.

Daw anhawster i ddarllenwyr y stori o gyfeiriad Marc gan nad oedd yn bosibl i berson gwahanglwyfus fod yn berchennog tŷ, na byw mewn teulu na chymuned. Arferiad y dydd oedd darllen y gwasanaeth angladd ym mhresenoldeb gwahanglwyf a'i ddanfon i ffwrdd, allan o gymdeithas iach, cyn darllen ei ewyllys a rhannu ei eiddo. Un esboniad yn unig sy'n bosibl yma, sef mai gwahanglwyf wedi ei iacháu oedd y Simon hwn. Ond daw nifer o gwestiynau yn sgil hynny - Ai'r un Simon sydd yma? Ai'r un person yw 'Pharisead' Luc a 'gwahanglwyf' Marc? Ai ar ôl y digwyddiad yn Luc 7 y cafodd ei daro gan y gwahanglwyf? Ai Iesu a lanhaodd ei gorff a'i iachau, gan beri iddo ei groesawu i gartref ei chwaer-yng-nghyfraith a dderbyniodd yr un iachâd gan Iesu, yn ogystal â Lasarus a gafodd ei alw o'r bedd ganddo. Nid rhyfedd i Iesu gael cartref oddi cartref ym Methania.

Wrth i Iesu a'r cwmni eistedd o gwmpas y bwrdd, "*daeth gwraig a chanddi ffiol alabaster o ennaint drudfawr…"* medd Marc. Mair oedd ei henw yn ôl Ioan. "*A thywalltodd yr ennaint ar ei ben ef"* (Marc), ond yn ôl Ioan, "*cymerodd Mair fesur o ennaint costfawr, nard pur, ac eneiniodd draed Iesu a'u sychu â'i gwallt*" (Ioan 12: 3), h.y. copïo'r hyn a ddigwyddodd yn y stori gyntaf. Ai dau ddigwyddiad gwahanol sydd yma neu ail-adroddiad o stori Luc gan ei lleoli mewn lle gwahanol? Ceir anghytundeb ymhlith ysgolheigion ynglwn â hyn ac ynglwn â phwy yw'r wraig neu'r gwragedd. Tuedda rhai ysgolheigion diweddar i ddweud

mai dwy Fair wahanol sydd yn y storïau hyn, ond ceir digon o reswm yn yr efengylau dros gredu mai'r un person yw'r ddwy.

Mae'n werth ail-adrodd ffeithiau'r ddau hanes hyn. Yn stori Luc, cafodd Iesu ei eneinio gan wraig, Mair, am iddo ei hachub o'i 'marwolaeth'. Yn yr ail hanes, eistedda Iesu yng nghwmni Simon a gafodd ei achub gan Iesu o fath arall o 'farwolaeth', a Lasarus a gafodd ei alw o'i fedd ychydig yn unig cyn hynny. Daeth Mair i mewn atynt gan ail-adrodd ei gweithred yn nhw Simon y Pharisead, ond y tro hwn ar ran Lasarus a Simon, a chawsant eu rhyddhau o blith y byw-meirw.

Mae'n bosibl wrth gwrs mai dwy Fair wahanol oeddent. Os felly, yr hyn a gewch ym Methania yw'r 'ferch dda' yn copio gweithred y 'ferch ddrwg' edifar yn hanes Luc, gan ddarostwng ei hun, efallai gwaradwyddo ei hun, oherwydd ei chariad at Grist ac i fynegi diolchgarwch ar ran ei brawd a gur ei chwaer.

Yng Nghapernaum, cafwyd dagrau o edifeirwch; ym Methania teimladau o ddiolchgarwch a llawenydd oedd yn rheoli. Ym Methania, edrychodd Mair yn ôl at fedd Lasarus tra bod Iesu'n edrych ymlaen at ei fedd ei hun. O'i flaen ef, safai Jerwsalem a Gethsemane, ffordd gofidiau a'r Groes a'r bedd, brad, unigrwydd, trallod a marwolaeth. Roedd y tywyllwch yn cau amdano. Daeth Mair ato a chyflawni'r weithred hon, gan roi cymorth iddo i wynebu ei groes. Amhosibl yw cymharu'r hyn a wnaeth Iesu dros ddynion a'r hyn a wnaeth Mair dros Iesu. Gweithred fach o'i heiddo; dibwys i rai ond cyffyrddodd ag ef ar awr ei angen. Ni ddaeth neb arall ato, neb o'r siaradwyr huawdl, neb ond Mair. O am gael dysgu ganddi! Tramgwydd oedd y cyfan i'r Deuddeg. Gwastraff! Rhoi yn afradlon oedd Mair er mwyn y Meistr. Yr oedd yn gwbl ymwybodol o'r ffaith bod y tlodion yno bob amser yn disgwyl cymorth.

'*A ellwch roi mesur ar gariad?*' yw awgrym Iesu yma, ar wahân i'r ffaith ei fod yn rhoi popeth ac yn cymryd, yn wir, hawlio popeth. Mair yn unig a ddaeth â goleuni i Grist yr wythnos honno, i oleuo'r ffordd o'i flaen. Daeth Mair at Oleuni'r Byd gan adlewyrchu'r goleuni yn ei gweithred ac yn ei ymagwedd tuag at ei Gwaredwr.

Eisoes roedd arweinwyr y bobl wedi dechrau cerdded ar eu llwybr drygionus, ac amser eu llwyddiant i'w weld yn agosáu. Yr un pryd, meddiannwyd y disgyblion gan ofn ac ansicrwydd. Ciliodd Jwdas i'r tywyllwch i fradychu ei gyfaill. Ymffrostiodd Pedr a broliodd y deg disgybl arall yn gwbl sicr mai hwy oedd y pwysicaf o'r Deuddeg. Ymhen

pedair awr ar hugain, dianc a chuddio wnaeth pob un ohonynt. Ond, daeth Mair a'i eneinio. Byddai yn ei ddilyn at droed ei groes ac at ddrws ei fedd; ar y trydydd dydd, byddai'n cael cwrdd ag ef yn yr ardd a'i danfon i ddweud wrth y lleill. Dengys Mair wrthym beth yw ystyr perthyn i'r Gwaredwr, o fod yn blentyn y Goleuni wrth iddi eneinio Iesu.

Cafwyd pedwar rheswm traddodiadol dros eneinio: (1) i anrhydeddu gwestai; (2) i sefydlu proffwyd, offeiriad neu frenin yn ei swydd; (3) fel arwydd o'r Ysbryd Glân; (4) i berarogli corff. Roedd gweithred Mair yn cynnwys y pedwar. Anrhydeddu Iesu (1) fel gwestai yn ei chartref ac yn ei bywyd, (2) fel proffwyd, offeiriad a brenin, Eneiniog Dduw, (3) fel un oedd yn llawn o'r Ysbryd Glân; a (4) i baratoi ei gorff ar gyfer ei fedd, canys hwn oedd "*Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd*" (Ioan 1: 29). Wedi iddo gael ei eneinio, fe gerddodd Eneiniog yr Arglwydd, y Sanctaidd Un, ymlaen i gyflawni ei ddewis waith, i wasanaethu ac aberthu, i deyrnasu a marw, i farw a theyrnasu. Â Chariad tragwyddol a hollalluog, bu'n orchfygol ar y Groes, er ein mwyn ni oll, er ein hiachawdwriaeth, ac er mwyn y byd.

**Gweddi:**
*Grasusaf Dduw, yn dy ewyllys di y mae ein tangnefedd;*
*Tro ein calonnau a chalonnau pawb atat ti,*
*fel trwy rym dy Ysbryd Glân,*
*y sefydlir ar y ddaear yr heddwch sy'n seiliedig ar gyfiawnder,*
*trwy Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.*